



## Ysgol Pentreuchaf

### 86. Polisi Entrepreneuriaeth a Medrau Menter

#### Nod

Datblygu a meithrin pobl ifanc hunan gynhaliol, entrepreneuriaid yn y gymuned, a fydd yn cyfrannu'n bositif tuag at economi a llwyddiant cymdeithasol

#### Canllawiau

1. Mae dysgu entrepreneuriaeth neu fentergarwch yn golygu datblygu agwedd bositif a rhagweithiol tuag at beth bynnag y mae'r disgyblion yn ei wneud mewn bywyd, o sefydlu busnes, gweithio i rywun arall nbeu wneud rhywbeth yn y gymuned. Mae'n golygu bod â'r hyder a'r ynni i ddatblygu syniadau a bod â'r fenter a'r cryfder i'w gwireddu.

2. Mae'n galluogi pobl ifanc i fod yn bositif, yn rhagweithiol ac yn llwyddiannus yn eu ffordd o fyw ac yn eu gwaith.

3. Mae'r Strategaeth Menter ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn canolbwyntio ar 3 prif faes o weithgareddau ar gyfer y gwaith hwn

i) Ymwybyddiaeth – datblygu diwylliant entrepreneuriaid.

ii) Dysgu – rhoi'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i bobl ifanc.

iii) Cefnogaeth – darparu seilwaith cefnogi effeithiol yn cael ei arwain gan ofyn.

4. Mae'r rhaglen o weithgareddau yn canolbwyntio ar yr agweddau, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i alluogi pobl ifanc i gyfarfod ag anghenion busnes yn y 21ain. ganrif. Mae pedwar dimensiwn allweddol –

i) Agwedd – os ydych eisiau llwyddo mewn unrhyw beth mewn bywyd, mae'n rhaid bod â'r agwedd iawn. Mae'r dimensiwn hwn yn golygu deall eich hunan, eich cymhellion a sut i gyrraedd eich nodau. (Hunan wybodaeth, hunan gred a hunan hyder, ysgogiad, dyhead, penderfyniad ac ysfa gystadleuol)

ii) Creadigedd – does dim rhaid i chi fod yn athrylith i fod yn greadigol. Mae'n golygu bod â'r gallu i gynhyrchu syniadau ffres, datrys problemau a gweld cyfleoedd newydd. (Datrys problemau, meddwl dargyfeiriol, cynhyrchu syniadau, gweld a chreu cyfleoedd ac arloesedd.)

iii) Perthynas – mae hyn i gyd ynghylch pobl, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, mynegi'ch barn a'ch syniadau eich hunan, gwerthfawrogi safbwynt eraill a chydweithio. (Gweithio gydag eraill, rheoli sefyllfaoedd anodd, trafod, persw a dylanwadu, cyflwyno a chyfathrebu).

iv) Trefniant – cymryd penderfyniadau gwybodus a chyflawni'ch amcanion wrth gynllunio a rheoli sefyllfaoedd, adnoddau a risg. (Cynllunio, rheoli adnoddau, cymryd penderfyniad, ymchwil a dealltwriaeth o'r amgylchedd, rheoli risg, gweledigaeth a gosod nodau).

Defnyddir y model uchod fel sylfaen ar gyfer yr holl adnoddau a rhaglenni a ddatblygir trwy Dynamo. Maent yn tanlinellu'r sgiliau a'r agweddau mae pobl ifanc eu hangen er mwyn llwyddo ac mae entrepreneuriaid Cymru'n dangos sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio yn eu bywydau pob dydd.

5. Dylai uchelgais i sefydlu busnes ddod yn beth normal ymysg pobl ifanc. Mae rhaglen Dynamo yn ysbrydoli pobl ifanc i feddwl yn wahanol ynghylch eu dyfodol ac yn rhoi'r hyder iddynt i ystyried cyfleoedd entrepreneuriaid. Mae'n sicrhau fod pobl ifanc yn cael cyfle i ddatblygu a defnyddio sgiliau entrepreneuriaid. Os oes gan bobl ifanc yr uchelgais i sefydlu busnes eu hunain, dylent fedru mynd i fyd gwaith gyda'r gwreichion entrepreneuriaid, yr agweddau cywir a'r sgiliau i lwyddo.

6. Mae Deunydd Cwricwlwm Dynamo a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) yn darparu cyfres o adnoddau dysgu ar gyfer pob ysgol, gan dargedu pobl ifanc o 5 oed ymlaen.

7. Dylai pob person ifanc gael cyfle i brofi menter a theimlo gwefr yr her o roi'i sgiliau ar waith. Mae Dynamo yn ategu'r amrywiaeth o brofiadau menter sydd ar gael i bobl ifanc a chyda'i gilydd maent yn rhoi cyfle i ymarfer sgiliau wrth ddusgy trwy brofiad.

### **Casgliad**

Gan fod prosiect Entrepreneuriaeth llwyddiannus yn ateb gofynion cwsmeriaid real, mae'r disgyblion yn gweld y gweithgareddau fel rhai sy'n ateb pwrpas clir. Bydd y disgyblion yn derbyn cyfrifoldeb dros eu prosiect a bydd unrhyw lwyddiant yn ystyrion ac wedi ei ennill ganddynt. Bydd hyn yn cynyddu cyrhaeddiad y disgyblion ac yn cyfrannu at ddisgyblion yn cyflawni eu potensial a dechrau adnabod eu lle mewn cymdeithas a byd gwaith.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**